# WYTHNOS CYMRU CŴL

## Gweithgareddau i'r teulu!

## ARDDANGOSFA CELF A CHREFFT A SMŴFIS!

**NOS LUN, MAWRTH23**

**3:00-4:30 PM**




Cyfle i chi weld gwaith celf disgyblion yr Urdd a gweld y prosiect smw-fis!

## CYSTADLAETHAU

**Faint o'r enwogion Cymreig fedrwch chi eu henwi?**

**Creu arfbais unigryw ar gyfer eich teulu chi!**

**Byddwn yn cael beirniad annibynnol i feirniadu.**

**Ceisiadau 2D neu 3D erbyn dydd Llun,Mawrth 23.**

**Gwobrau da!**

# WYTHNOS CYMRU CŴL

## WYTHNOS LANSIO SIARTER IAITH YSGOLION GWYNEDD!

### MAWRTH 23-28

Mae ysgolion dalgylch  Glan y Môr i gyd yn lansio Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd yn ystod yr wythnos hon.Pwrpas y siarter iaith yw annog disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae'r daflen hon yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd yn Ysgol Abererch!

### DYDD LLUN

PAWB
Gwisgo gwisg Gymreig, dillad coch neu grys rygbi.

CA2
Sioe Hei Hogia yn ymweld â'r ysgol.Bydd y criw actorion yn cyflwyno rhannau o lyfrau i'r plant.





### DYDD MAWRTH

## JAMBORI CANU YSGOLION Y DALGYLCH!



**yn NEUADD DWYFOR PWLLHELI**

Bydd disgyblion Ysgol Abererch yn ymuno â gweddill disgyblion y dalgylch mewn sesiwn hwyliog o ganu!



CYFNOD SYLFAEN
Canu caneuon Gwlad y Rwla gyda Strempan! Gwahoddir y disgyblion i wisgo fel cymeriad o wlad y Rwla.



CYFNOD ALLWEDDOL 2
Canu caneuon traddodiadol Cymreig gyda Cowbois Rhos Botwnnog. Gwahoddir y disgyblion i wisgo fel cowbois(jins a chrys siec!)

### DYDD IAU



**EISTEDDFOD FFUG**
**YSGOL ABERERCH**
**Diwrnod o gystadlu gwirion! Y gwirionaf fydd y gorau!**
**Rhestr testunau ar daflen arall!**

### DYDD GWENER

**Dysgu gemau amser chware newydd sbon gyda'r awdures Mair Tomos Ifans!**